

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol (lle
rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf, Deintyddfa
Llantrisant**

4 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle y rhoddwyd rhybudd o flaen llaw o Ddeintyddfa Llantrisant, 15 Newbridge Road, Llantrisant, CF72 8EX, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 4 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, roeddem yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda*, *Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹ Daeth *Gwneud yn Dda*, *Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. [Gwneud yn Dda](#), [Gwneud yn Well](#)

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Llantrisant yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llantrisant. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol sy'n dwyn yr enw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Ar adeg ein harolygiad roedd y practis yn cyflogi tîm o staff o bedwar a oedd yn cynnwys un deintydd, dwy nyrs (gweithiai un ohonynt o bryd i'w gilydd yn y dderbynfa) ac un derbynnydd rhan-amser. Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion y GIG yn unig.

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Deintyddfa Llantrisant yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon tu hwnt ar y gwasanaethau a ddarperir. Gwelsom hefyd fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gynnes, broffesiynol. Fodd bynnag, mae angen gwella'r weithdrefn gwyno i sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu o'u hawliau a bod y practis yn delio â chwynion yn briodol.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel, o ansawdd da, i gleifion. Fodd bynnag, mae angen gwella elfennau o'r broses atal a rheoli heintiau i sicrhau bod y practis yn cwrdd â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05). Roedd angen gwelliannau hefyd o ran yr hyn sy'n cael ei gynnwys yng nghofnodion y cleifion i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir yn ddigon manwl a chyfleus.

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda ac iddo dîm o staff ymroddedig a brwdfrydig. Roedd yr unig ddeintydd hefyd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd gyda chymorth ei wraig yn ei rôl hithau fel rheolwr practis rhan-amser. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi a bod ganddynt fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi.

Mae safle'r practis yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Roedd y prif ddeintydd hefyd wedi buddsoddi mewn ystafell ddadheintio bwrpasol yn unol â'r arfer orau.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon tu hwnt ar y gwasanaethau a ddarperir. Gwelsom hefyd fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gynnes, broffesiynol. Fodd bynnag, mae angen gwella'r weithdrefn gwyno i sicrhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu o'u hawliau a bod y practis yn delio â chwynion yn briodol.

Anfonwyd holiaduron cleifion gennym i'r practis ac roedd 41 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Roedd y cleifion hyn wedi bod ar gofrestr y practis ers rhwng un a 26 o flynyddoedd. Gwnaethom siarad hefyd â thri chlaf ychwanegol ar ddiwrnod ein hymweliad.

Dywedodd yr holl gleifion y buom yn siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gofal yr oeddent wedi ei dderbyn yn y practis a bod y staff wedi bod yn groesawgar wrthynt. Sylwom hefyd fod y staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gynnes a phroffesiynol, wrth iddynt gyrraedd a gadael, a thros y ffôn. Nododd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Roedd sampl o'r sylwadau yn cynnwys y canlynol:

'(Mae'r deintydd) a'i dîm yn gampus'

'Mae'r teulu a finne wedi bod yn defnyddio'r practis hwn ers wyth mlynedd ac rydym wedi bod yn fodlon ar y gwasanaeth'

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynghylch gwybodaeth am driniaeth, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth oedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Rhoddodd y cleifion hefyd sylwadau ysgrifenedig ychwanegol inni, megis:

'Deintydd rhagorol. Yn barod ei gymwynas ac yn wybodus'

'Rwyf i wastad yn hapus iawn ac yn fodlon ar y gwasanaeth proffesiynol a roddir gan bob un o'r staff yn y practis'

'Mae hon yn ddeintyddfa hyfryd, o'r derbynnydd i'r deintydd, sydd yn dyner iawn a chanddo sgiliau eithriadol wrth drin pobl'

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a lenwodd ein holiaduron eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau arferol. Gwnaethom wirio'r neges y tu allan i oriau gwaith ar beiriant ateb y practis a gwelsom fod gwybodaeth glir ynghylch sut i gael mynediad at ofal deintyddol a thriniaethau y tu allan i oriau.

Cawsom sgysiau â'r tîm deintyddol a chael gwybod bod y practis yn gweithredu system apwyntiadau hyblyg, a bod triniaethau arferol a thriniaethau brys ar gael. Yn ogystal dywedodd dau glaf a siaradodd â ni fod y practis wedi rhoi apwyntiadau brys iddynt yn brydlon pan oeddent yn dioddef o boen/problemau deintyddol. Roedd y practis ar agor tan 6.00 p.m ar ddau ddiwrnod allan o'r pum diwrnod yr oedd y ddeintyddfa ar agor yn ystod yr wythnos. Golygai hyn fod cleifion sy'n gweithio yn gallu trefnu apwyntiadau y tu allan i'w horiau gwaith.

Er bod y cleifion wedi dynodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir yn y practis ac nad oedd ganddynt gwynion, nid oedd tua thraean o'r cleifion a holwyd gennym yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny. Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i gleifion gael mynegi pryderon am eu gofal a'u triniaeth ac roedd nodyn bach yn hysbysu hyn, a thaflen, ar gael yn y dderbynfa. Serch hynny, nid oedd y ddau'n cynnwys gwybodaeth sy'n adlewyrchu trefniadau cwyno (pryderon) y GIG ar hyn o bryd. Roedd hyn yn golygu nad oedd gwybodaeth ynghylch cwynion ar gael yn hawdd i'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad hawdd at wybodaeth ynghylch gwneud cwyn.

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y polisi cwynion (pryderon). O ganlyniad, gwelwyd nad oedd y polisi'n nodi amserlenni cywir y GIG ar gyfer ymdrin â chwynion. Gwelsom hefyd nad oedd y polisi'n hysbysu cleifion am eu hawl i gael cymorth gyda'u cwynion neu bryderon gan y Cyngor Iechyd Cymuned, na chwaith am eu hawl i ddyrchafu cwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion taflen 'Gweithio i Wella' y GIG.

Wrth sgwrsio â chleifion gwelsom eu bod yn teimlo y gallent leisio pryder neu ddarparu adborth yn anffurfiol i'r tîm deintyddol. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym nad oedd dulliau ffurfiol lle gallai'r cleifion roi adborth i'r practis drwy systemau megis blwch awgrymiadau, llyfr sylwadau neu holiaduron cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried sut i gywain a defnyddio adborth y cleifion fel modd o nodi'r angen am wasanaethau a gwella'u hansawdd.

Nid oedd gwefan gan y practis deintyddol. Roedd copi o daflen y practis wedi'i harddangos ar ddesg y dderbynfa ac roedd ar gael i gleifion ar gais.

Gwelsom fod y staff yn groesawgar iawn a'u bod yn adnabod y cleifion yn dda yn y gymuned a wasanaethir gan y practis. Roedd hi'n amlwg bod gan y staff ddiddordeb yng ngofal a thriniaeth ddeintyddol y cleifion a hefyd yn eu lles cyffredinol, ac roedd hyn yn creu amgylchedd cyfeillgar iawn a chynhwysol. Ymhlith sylwadau'r cleifion am eu profiad o dderbyn gofal yn y practis oedd y canlynol:

'Gallaf ddweud yn onest bod y practis hwn lawer yn well na'r hyn a brofais o'r blaen. Roeddwn i'n nerfus iawn am y deintydd, ond dim bellach'

'Mae'r staff wastad yn gwrtais a pharod eu cymwynas'

'Rwy'n fodlon dros ben ar bob agwedd ar y ddeintyddfa yma'

'Triniaeth o'r radd flaenaf mewn awyrgylch cyfeillgar iawn'

Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel, o ansawdd da, i gleifion. Fodd bynnag, mae angen gwella elfennau o'r broses atal a rheoli heintiau i sicrhau bod y practis yn cwrdd â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05). Roedd angen gwelliannau hefyd o ran yr hyn sy'n cael ei gynnwys yng nghofnodion cleifion i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir yn ddigon manwl a chyfleus.

Cedwid cofnodion y cleifion ar bapur yn unig yn y practis deintyddol hwn, ac nid oedd system gyfrifiadurol ar waith. Gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf ar gyfer yr unig ddeintydd sy'n gweithio yn y practis, a gweld nad oeddent yn cynnwys digon o fanylion am hanes meddygol y cleifion (boed yn newydd neu wedi'u hadolygu), ac am opsiynau triniaeth a thriniaeth sydd wedi'i chynllunio. Roeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth o drefniadau dilynol addas. Dynododd sgwrs gyda'r deintydd bod digon o amser yn cael ei dreulio bob amser ar roi gwybodaeth i gleifion am eu gofal a'u triniaeth. Cadarnhawyd hyn yn holiaduron cleifion AGIC a ddychwelwyd, a thrwy sgysiau â thri chlaf ar ddiwrnod ein harolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y practis i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o fanylion yn dilyn ymgynghoriadau a thriniaethau deintyddol. Mae hyn yn unol â safonau cyfredol y GIG.

Cawsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennaeth orfodol ar gael ac yn gyfredol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a hyfforddiant staff. Ddiwrnod cyn ein harolygiad daeth i'r amlwg bod nam ar y peiriant pelydr-X. Wrth drafod â'r prif ddeintydd deallom fod y ddeintyddfa wedi bod mewn cyswllt â pheirianwyr ac wedi gofyn am ymweliad brys ganddynt. Dywedwyd wrthym hefyd y bydd apwyntiadau cleifion yn cael eu haddasu lle bo angen, i sicrhau y bydd gofal a thriniaethau'n parhau i gael eu darparu'n ddiogel.

Roedd gan y staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau gogyfer achos o argyfwng (cwmp) i glaf yn y practis. Gwelsom fod archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal i nodi a gwirio dyddiadau dod i ben y cyffuriau fel y gellid archebu mwy ohonynt os oes angen.

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol gan gynnwys sut i weinyddu adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR).

Amlygodd ein sgysiau gyda'r tîm deintyddol bod llyfrau presgripsiwn cyffuriau yn cael eu cadw o'r golwg, ond nad oeddent dan glo. Fe'n hysbyswyd hefyd na chât rhifau cyfresol y llyfrau presgripsiwn newydd eu cofnodi wrth iddynt gyrraedd y practis, fel yr argymhellir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn modd diogel.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer dadheintio'r offer a ddefnyddir yn y practis a chawsom fod y rhain yn eglur ac yn hawdd i'w dilyn. Gwelsom fod staff y practis yn cludo offer a ddefnyddiwyd yn brydlon o'r ddeintyddfa mewn blwch plastig wedi'i selio (er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio gydag offer eraill). Gwelsom hefyd fod yr offer yn cael eu glanhau'n gyntaf â llaw ac yna'n cael eu trosglwyddo i faddon uwchsonig² er mwyn eu glanhau ymhellach. Roedd y nyrsys deintyddol yn archwilio pa mor lân oedd yr offer cyn eu sterileiddio yn yr awtoclaf³. Gwelsom fod cofnodion gofynnol wedi'u cynnal mewn perthynas ag archwiliadau'r awtoclaf a'r baddon uwchsonig.

Gwelsom fod mwyafrif yr offer deintyddol wedi'u sterileiddio yn eu pecyn (yn unol â'r math o awtoglaf a ddefnyddir yn y practis). Ar ôl eu sterileiddio cafodd y pecynnau eu selio a'u stampio â dyddiad i ddynodi pryd y cawsant eu sterileiddio ac erbyn pryd y dylid eu defnyddio'n ddiogel, er diogelwch y cleifion. Fodd bynnag, gwelsom na roddwyd pecyn o amgylch yr offer bob amser cyn iddynt gael eu rhoi yn yr awtoglaf. Cafodd offer a sterileiddiwyd, nad oedd mewn pecynnau, eu cadw ar hambwrdd agored mewn cwpwrdd yn y ddeintyddfa am nifer o ddyddiau, yn barod i'w defnyddio. Golygai hyn fod perygl y gallai'r offer hyn gael eu heintio wrth i aelodau'r tîm deintyddol ychwanegu/tynnu ymaith eitemau eraill o'r cwpwrdd yn ystod y dydd. Felly cawsom sgwrs â'r tîm deintyddol, a chytunwyd y byddai unrhyw offer na chafodd eu pecynnu cyn eu sterileiddio yn cael eu defnyddio ar y diwrnod hwnnw, neu fel arall yn cael eu hail-sterileiddio ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.

² Mae **bath uwchsonig** yn glanhau eitemau gan ddefnyddio uwchsain (fel arfer o 20-400 cilohertz) a sylwedd glanhau priodol.

³ Siambr bwysedd yw **awtoclaf** a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau gan ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y practis deintyddol i lanhau a sterileiddio'r offer nad ydynt wedi'u pecynnu ar ddiwedd pob diwrnod gwaith, er mwyn lleihau'r perygl o groes heintio.

O drafod â'r tîm deintyddol, daeth i'r amlwg bod yr offer llaw a ddefnyddir ar gyfer gwaredu â phlac deintyddol ond yn cael ei sychu ar ôl eu defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr offer llaw a ddefnyddir ar gyfer gwaredu â phlac deintyddol yn cael eu sterileiddio bob tro ar ôl eu defnyddio.

Roedd ystafell ddadheintio wedi'i chreu yn y practis gan y deintydd presennol er mwyn cwrdd â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁴. Gwelsom fod yr ystafell yn lân, wedi'i chynllunio'n dda ar y cyfan, a heb annibendod ynddi. Ond, er bod ynddi sinc â dau fasn ar gyfer golchi offerynnau, nid oedd sinc ychwanegol ar gyfer golchi dwylo ar gael, fel sy'n cael ei argymhell.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried sut i ddarparu cyfleusterau golchi dwylo ychwanegol yn yr ystafell ddadheintio er mwyn bodloni'r gofynion ar gyfer arfer orau.

Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael mewn lleoedd pwysig eraill yn y practis (megis yr ystafell driniaeth, toiled y staff/cleifion, a'r ystafell staff yn islawr yr adeilad). Gwelsom hefyd fod eitemau deintyddol untro ar gael i leihau'r risg o groes-heintio.

Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad trylwyr ar atal a rheoli heintiau, am y tro cyntaf, yn ystod mis Ionawr 2015. Yn sgil yr archwiliad hwn nodwyd gwelliannau, ac roedd y prif ddeintydd wrthi'n eu hystyried. Datgelodd ein trafodaethau gyda'r tîm deintyddol hefyd fod pwyslais ar hyrwyddo gwasanaeth diogel, o ansawdd, drwy gynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol mewn perthynas â defnyddio offer deintyddol.

⁴Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom gofnodion chwarterol a oedd yn cadarnhau bod contract ar waith ar gyfer gwaredu â gwastraff peryglus. Gwelsom hefyd fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel i ffwrdd o'r cleifion ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad oedd gan y tîm deintyddol finiau a oedd yn benodol ar gyfer gwaredu â gwastraff peryglus. Mynegodd y practis ei barodrwydd i fynd i'r afael â'r mater hwn yn brydlon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y practis i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei ddidoli cyn ei waredu, yn unol â'r canllawiau presennol.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob deintyddfa yn y practis ac roedd y rhain yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Er enghraifft, gwelsom fod cleifion a staff yn defnyddio cyfarpar addas ar gyfer diogelu llygaid, ynghyd â chyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda gyda thîm o staff ymroddedig a brwdfrydig. Roedd yr unig ddeintydd hefyd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd gyda chymorth ei wraig yn ei rôl hithau fel rheolwr practis rhan-amser. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi a bod ganddynt fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi.

Tîm bach oedd y practis, ac oll wedi gweithio yn y practis dros y naw mlynedd diwethaf. Golygai hyn fod cleifion yn derbyn gofal gan staff a oedd yn gyfarwydd â gwasanaeth ac ethos y practis. Roedd gwraig y deintydd yn gweithio yn y practis yn bennaf fel rheolwr practis rhan-amser. Ond roedd adegau pan fyddai'n gweithio fel nyrs ddeintyddol neu yn y dderbynfaf.

Cymerodd y deintydd gyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r practis, gyda chymorth pob aelod o'r tîm. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y deintydd yn eu swyddi. Dywedon nhw wrthym hefyd y byddent yn hapus i drafod unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith gyda'r deintydd.

Deallom nad oedd y practis wedi cyflogi unrhyw staff newydd yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, gwelsom enghraifft o raglen gynefino addas (yn un o ffeiliau'r staff) a fyddai'n cael ei defnyddio petai'r tîm o staff yn cynyddu, neu petai angen i'r practis ddefnyddio nyrsys asiantaeth.

Gwelsom fod gan y staff gontract cyflogaeth a dangosodd y cofnodion fod gan staff fynediad at gyfleoedd hyfforddi rheolaidd a oedd yn berthnasol i'w gwaith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd system ar waith ar gyfer cynnal arfarniadau staff a fyddai'n annog trafodaethau dwy ffordd ynghylch arferion clinigol, ac yn rhoi cyfle i drafod effeithiolrwydd hyfforddiant a dderbyniwyd, a hyfforddiant posibl at y dyfodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai staff dderbyn arfarniadau amserol i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, ac er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddiant neu berfformiad.

Gwelsom wrth edrych ar gofnodion y staff fod gan y practis dystiolaeth gyfredol i ddynodi bod yr holl staff perthnasol wedi cael brechiad Hepatitis B. Wrth drafod â rheolwr y practis cadarnhawyd hefyd bod gan y practis gytundeb ffurfiol gyda'r Bwrdd Iechyd ar gyfer unrhyw faterion iechyd galwedigaethol (megis imiwneiddio, neu gymorth/cyngor pe bai rhywun yn cael anaf â nodwydd). Roedd hyn yn golygu bod staff a chleifion yn cael eu hamddiffyn rhag croes-heintio.

Roedd y staff yn gallu cael mynediad at bolisiau yn y practis a oedd wedi'u diweddu'n briodol ac yn eu helpu wrth eu gwaith.

Dyweddodd y staff wrthym nad oeddent yn cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol; yn hytrach roeddent yn trafod newidiadau i arferion a ffyrdd newydd o weithio yn rheolaidd, mewn modd anffurfiol.

Gwelwyd amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis ac a ddangosai fod systemau a phrosesau addas ar waith, yn gyffredinol, i sicrhau bod offer yn cael eu harchwilio'n amserol ac yn unol â'r gofynion gorfodol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystysgrif diogelwch nwy gyfredol. Siaradwyd â'r deintydd am hyn a chytunodd i drefnu bod contractiwr allanol yn dod i'r safle cyn gynted a bo modd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y practis i ddarparu tystiolaeth i AGIC o dystysgrif diogelwch nwy gyfredol a dilys.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol.

Ansawdd yr Amgylchedd

Yn gyffredinol, roedd safle'r practis yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Roedd y prif ddeintydd hefyd wedi buddsoddi mewn ystafell ddadheintio bwrpasol yn unol â'r arfer orau.

Mae Deintyddfa Llantrisant wedi'i lleoli mewn tŷ teras sydd wedi'i addasu yn 15 Newbridge Road, Llantrisant. Mae'r practis wedi ei hen sefydlu erbyn hyn; fodd bynnag, daeth y practis i feddiant y prif ddeintydd/perchennog yn ystod 2005. Ers hynny mae adeilad y practis wedi cael ei adnewyddu'n sylweddol, gan gynnwys creu ystafell ddadheintio bwrpasol. Nid oedd lleoedd parcio yn y practis, ond gallai cleifion barcio ar y strydoedd gerllaw neu mewn maes parcio am ddim nid nepell o'r practis.

Oherwydd cynllun presennol yr adeilad ni all cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn gael triniaeth. Mae hyn am fod yr unig ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf. Fe'n hysbyswyd gan y tîm deintyddol bod cleifion â chadeiriau olwyn wedi bod i'r adeilad ar brydiau i gael cyngor deintyddol; ond cawsant eu cyfeirio ar ôl hynny at wasanaethau deintyddol cymunedol yn lleol.

Roedd gan y practis dderbynfa ar y llawr daear, a dwy ystafell aros ar ddau lawr (roedd y man aros y llawr cyntaf ond yn gallu derbyn un person ar y tro). Wrth arsylwi cadarnhawyd bod maint yr ystafelloedd aros yn addas ar gyfer yr un ystafell driniaeth a oedd ar y safle.

Roedd toiled i gleifion a staff ar y llawr cyntaf a chafwyd arwyddion eglur ar ei gyfer yn dynodi ei fod ar gyfer dynion a merched. Gwelsom doiled at bwrpas y staff yn unig yn yr islawr. Roedd y ddau fan yn lân ac roedd sebon a thywelion papur ynddynt.

Wrth fynd ar daith o amgylch y safle gwelwyd bod y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a oedd wedi'i harddangos yn ddilys. Dim ond un allanfa dân oedd ar y safle, a honno oedd y fynedfa flaen. Roedd y diffoddyddion tân wedi cael eu harchwilio gan gorff allanol yn 2014.

Gwelwyd nad oedd arwydd yn rhybuddio rhag ymbelydredd wedi'i gosod wrth fynedfa'r ddeintyddfa er mwyn dynodi wrth aelodau'r cyhoedd bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y practis i arddangos arwyddion rhybudd priodol yn y rhan o'r practis lle defnyddir cyfarpar pelydr-X.

Roedd pob rhan o'r adeilad yn lân, yn ffres, yn daclus a chroesawgar. Sylwom fod y practis wedi'i wresogi a'i awyru'n ddigonol a bod goleuadau addas yno.

Roedd enw a chymwysterau'r perchennog/prif ddeintydd wedi'u harddangos yn glir ar flaen yr adeilad.

Roedd posteri wedi'u harddangos yn ystafell aros y llawr daear a oedd yn rhoi arweiniad i gleifion ynghylch taliadau am driniaethau'r GIG.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â Phrofiad y Claf, Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, ac Ansawdd yr Amgylchedd. Mae manylion hwn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Deintyddfa Llantrisant yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Deintyddfa Llantrisant

Dyddiad yr Arolygiad: 4 Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
Tudalen 7	Dylai'r practis sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad hawdd at wybodaeth ynghylch gwneud cwyn.			
Tudalen 7	Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion taflen 'Gweithio i Wella' y GIG.			
Tudalen 8	Dylai'r practis ystyried sut i gywain a defnyddio adborth y cleifion fel modd o nodi'r angen am wasanaethau a gwella'u hansawdd.			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
Tudalen 9	Cynghorir y practis i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o fanylion yn dilyn ymgynghoriadau a thriniaethau deintyddol. Mae hyn yn unol â safonau cyfredol y GIG.			
Tudalen 10	Dylai'r practis sicrhau bod llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn modd diogel.			
Tudalen 11	Cynghorir y practis deintyddol i lanhau a sterileiddio'r offer nad ydynt wedi'u pecynnu ar ddiwedd pob diwrnod gwaith, er mwyn lleihau'r perygl o groes heintio.			
Tudalen 11	Dylai'r practis sicrhau bod yr offer llaw a ddefnyddir ar gyfer gwaredu â phlac deintyddol yn cael ei sterileiddio bob tro ar ôl eu defnyddio.			
Tudalen 11	Dylai'r practis ystyried sut i ddarparu cyfleusterau golchi dwylo ychwanegol yn yr ystafell ddadheintio er mwyn bodloni'r gofynion ar gyfer arfer orau.			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 12	Cynghorir y practis i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei ddioli cyn ei waredu, yn unol â'r canllawiau presennol.			
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
Tudalen 13	Dylai staff dderbyn arfarniadau amserol i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, ac er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddiant neu berfformiad.			
Tudalen 14	Cynghorir y practis i ddarparu tystiolaeth i AGIC o dystysgrif diogelwch nwy gyfredol a dilys.			
	Ansawdd yr Amgylchedd			
Tudalen 16	Cynghorir y practis i arddangos arwyddion rhybudd priodol yn y rhan o'r practis lle defnyddir cyfarpar pelydr-X.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: